

Nodiadau llinol

Mae nodiadau llinol yn **fraslun cronolegol** o ddarlith neu destun.

Mae gwneud nodiadau llinol yn ddull eithaf cyffredin o wneud nodiadau, ond mae'n eithaf posib y byddwch yn trawsgrifio popeth sy'n cael ei ddweud neu ar y sleid cyflwyno.

Ceisiwch ddefnyddio'r dull Cornell canlynol, mae'n darparu strwythur i'ch nodiadau sy'n eich gorfodi i **feddwl am y cynnwys** yn hytrach na **dim ond ei gopïo**.



Dull Cornell: Dull defnyddiol o lunio eich nodiadau. Gellir ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd, seminarau, darlithoedd, ymchwil/darllen neu gynllunio traethawd.

- a. Ar ddechrau'r ddarlith, ysgrifennwch ar frig eich tudalen y **dyddiad, y modiwl**, ac enw/rhif y ddarlith os gwyddoch hynny.
- b. **Copiwch y fframwaith isod** yn eich llyfr nodiadau:
- c. **Rhagarweiniad:** un frawddeg yn unig ar y pwnc dan sylw a'r adrannau cysylltiedig
- d. Geiriau allweddol: wrth i'r ddarlith fynd rhagddi, yn y **golofn chwith**, nodwch air neu bwnc allweddol.
- e. Nodiadau: wrth ochr y gair allweddol, yn y **golofn dde**, ychwanegwch fwy o fanylion.
- f. **Crynodeb:** ar ddiwedd y ddarlith neu ar waelod y dudalen, crynhowch gynnwys y dudalen.
- g. Byddwch yn defnyddio mwy nag un dudalen mewn un ddarlith. **Ar y dudalen olaf**, paratowch grynodeb o'r ddarlith gyfan. Cewch weld **enghraifft ar y dudalen nesaf**.

Enghraifft o nodiadau llinellol - tudalen wag

Dyddiad	Modiwl	Darlith
Rhagarweiniad		
Geiriau allweddol	Nodiadau	
Crynodeb		